

## Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu, 2020-21

### Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ffordd bwysig o ragweld cynnydd diweddarach mewn llythrennedd. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwael plant yn effeithio ar amrywiaeth eang o ganlyniadau gan gynnwys ymddygiad ac iechyd meddwl, bod yn barod i fynd i'r ysgol a chyflogadwyedd.

Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu am eu bod yn hanfodol ar gyfer canlyniadau hirdymor.

Gallai fod angen cymorth ychwanegol ar unrhyw blentyn, ni waeth ble mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ein nod yw sicrhau y gall plant ledled Cymru gael gafael ar gymorth o safon uchel, boed yn gymorth cyffredinol, yn gymorth wedi'i dargedu neu'n gymorth arbenigol, yn y blynyddoedd cynnar – os oes angen – i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Er mwyn symud hyn yn ei flaen, rydym yn ystyried sut y gallem gymryd y dysgu o'r gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith o fewn rhaglen hirsefydledig Dechrau'n Deg a gwreiddio'r arferion da hyn yn ehangach.

Rydym wedi llunio cynllun cyflawni cenedlaethol sydd â'r nod o ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â Choleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (RCSLT) a Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol Lleferydd, iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg sydd wedi ein helpu i nodi'r camau gweithredu y mae angen inni eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae dull o weithredu'n drawslywodraethol ac ar draws y sectorau (gan gynnwys addysg, iechyd a pholisi 'cymdeithasol') wedi cael ei roi ar waith a fydd yn helpu i ymgysylltu â theuluoedd ac adeiladu ar y polisiau sydd eisoes yn bodoli a'r hyn sy'n gweithio. Cydnabyddir drwy [waith ymchwil wedi'i gomisiynu](#)<sup>1</sup> nad oes angen i Gymru ddyfeisio model cyflawni newydd. Yn lle hynny, mae angen gweithredu'n strategol er mwyn gwneud i'r gweithgareddau presennol weithio ym mhob lleoliad yng Nghymru.

### Ffyniant i Bawb

Mae'r ymgyrch genedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu, a datblygiad iaith cynnar yn arbennig, yn cyd-fynd â'r ymrwymiad mewn perthynas â'r Blynyddoedd Cynnar yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau y caiff pob plentyn y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac y gall wireddu ei botensial llawn.

---

<sup>1</sup> Astudiaeth i fapio'r ddarpariaeth addysgol bresennol o ran cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yng Nghymru, ar gyfer dysgwyr 0-25 oed

## **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Bydd y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cyfrannu at y saith nod llesiant, yn enwedig:

*Cymru lewyrchus* – Mae gan blant sydd wedi caffael sgiliau iaith cynnar gyfle gwell i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn ddiweddarach mewn bywyd, megis cyrhaeddiad addysgol o safon dda, gwell iechyd meddwl, mwy o botensial o ran cyflogadwyedd a chydaddoldeb cymdeithasol.

*Cymru iachach* – Gwyddom o'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael fod angen blaenoriaethu datblygiad iaith cynnar fel dangosydd llesiant plant a'i drin fel mater iechyd y cyhoedd.

*Cymru sy'n fwy cyfartal* – Mae caffael iaith yn gynnar yn elfen allweddol yn y broses o greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial, ni waeth beth fo'u cefndir (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

*Cymru o gymunedau cydlynus* – Mae gan gyfradd sylweddol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol a dynion ifanc sy'n ddi-waith am gyfnod hir anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Bydd hybu a chefnogi'r broses o gaffael iaith yn gynnar yn cyfrannu at greu cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* – Bydd hybu datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg yn cyfrannu at strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*.

### **Pum ffordd o weithio**

Lluniwyd y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu â ffocws cadarn ar gynaliadwyedd a'r pum ffordd o weithio.

Gwyddom o waith ymchwil y gall problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu arwain at broblemau i bobl ifanc yn ddiweddarach mewn bywyd os na chânt eu datrys yn y blynyddoedd cynnar. Gall y rhain bontio'r cenedlaethau ac rydym am wneud mwy i dorri'r cylch.

Drwy hyrwyddo pwysigrwydd chwarae gyda phlant ac ymgysylltu a siarad â nhw yn y blynyddoedd cynnar er mwyn eu helpu i gaffael iaith yn gynnar, rydym yn bwriadu cefnogi rhieni drwy eu helpu i feddu ar y sgiliau a'r ddealltwriaeth y byddant yn eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Drwy nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mor gynnar â phosibl a rhoi ymyriadau prydlon ar waith, gallwn helpu i atal problemau rhag gwaethygu ac atal plant rhag mynd ar goll yn y system.

Drwy gyfuno ein polisiâu presennol mewn cynllun cyflawni, gallwn ystyried datblygiad iaith cynnar mewn modd cyfannol a dwyn y system ynghyd er mwyn rhoi lle blaenllaw i leferydd, iaith a chyfathrebu yn ein hymdrechion i sicrhau y caiff pob plentyn y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Drwy weithio gydag arbenigwyr ym maes therapi lleferydd ac iaith, gwyddom y gallwn lywio ein cyfeiriad cenedlaethol mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan adeiladu ar yr arferion da y gwyddom sy'n bodoli yn ein hawdurdodau lleol fel y gwelir drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Rydym wedi cynnal arolygon gydag ymarferwyr lleferydd, iaith a chyfathrebu a rhieni er mwyn sicrhau bod ein cynllun cyflawni'n adlewyrchu eu safbwyntiau. Yn benodol,

gwelsom o'r adborth gan rieni yr hoffent gael negeseuon allweddol am leferydd, iaith a chyfathrebu drwy gymysgedd o ddulliau cyfathrebu – yn ddigidol a thrwy adnoddau traddodiadol. Bydd ein hymgyngoriad yn targedu ymarferwyr a'r cyhoedd drwy ein timau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu na ddylem fwrw ymlaen â chynllun cyflawni. I'r gwrthwyneb, mae gweithwyr proffesiynol, megis Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith yn gefnogol iawn o'r ffordd hon ymlaen, er mwyn helpu i godi proffil lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ategwyd hyn gan waith ymchwil ar sail tystiolaeth sy'n cyfeirio at bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu i'n cymdeithas.

Mae cyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer y cynllun cyflawni er mwyn cynnal rhai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymgyrch hyrwyddo genedlaethol ac er mwyn adolygu adnoddau sgrinio lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r mwyafrif o'r ymrwymadau yn y cynllun yn mynd rhagddynt ac yn cael eu hariannu o dan y portffolios polisi unigol megis Addysg ac Iechyd.

## A. ASESIAID O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon yr **holl** Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau i flwch negeseuon e-bost [CRIA@gov.wales](mailto:CRIA@gov.wales) mailbox

### **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

Cydnabyddir yn eang bod datblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol bwysig. Mae hyn yn cynnwys y modd y mae plant yn caffael sgiliau iaith, Lleferydd a Chyfathrebu (ILLaCh) a llafaredd sy'n tanategu gallu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu ac i ddatrys problemau. Mae cysylltiad cryf rhwng datblygiad gwybyddol cadarnhaol a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i fynediad i'r gweithlu.

Mae canlyniadau peidio â chefnogi sgiliau iaith cynnar plant, a pheidio ag adnabod anghenion ILLaCh hirdymor neu barhaus yn niweidiol i gyfleoedd bywyd plentyn, gan effeithio ar eu datblygiad, eu llesiant, eu deilliannau addysgol a'u rhagolygon posibl o ran swyddi.

Gall fod ar unrhyw blentyn, ni waeth ble y mae'n byw na beth yw ei amgylchiadau teuluol, angen cymorth ychwanegol gan ystod o randdeiliaid i fynd i'r afael ag oedi neu anawsterau gydag ILLaCh. Ein nod yw sicrhau bod gan yr holl blant ledled Cymru fynediad at gymorth sydd o ansawdd uchel, ar gael yn gyffredinol, wedi'i dargedu ac yn arbenigol yn y blynyddoedd cynnar – os oes ei angen – i ddatblygu eu sgiliau ILLaCh.

I ganlyn arni â hyn, rydym yn archwilio sut y gallem gymryd y gwersi a ddysgwyd o wasanaethau therapi iaith a lleferydd yn y rhaglen Dechrau'n Deg a darpariaeth generig a gwreiddio'r arfer da hwn yn fwy eang.

Rydym wedi datblygu cynllun cyflawni cenedlaethol sydd wedi'i fwriadu i ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau ILlaCh. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (CBThIaLI) a'r Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol ILlaCh Dechrau'n Deg sydd wedi ein helpu i adnabod y camau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf.

Mae swyddogion wedi cydweithio ar y cynllun cyflawni i sicrhau ein bod yn defnyddio dull traws-sector (a fydd yn cynnwys polisi addysg, iechyd a 'chymdeithasol') sy'n ennyn ymgysylltiad teuluoedd, ac yn adeiladu ar bolisiau presennol a'r hyn sy'n gweithio. Mae'r cynllun cyflawni drafft yn amcanu at ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau ILlaCh.

Y cam nesaf yn y gwaith hwn yw ymgynghori ynghylch y cynllun cyflawni arfaethedig â rhanddeiliaid allweddol.

- ♦ ***Sut fydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?***

**Mae'r ymrwymïadau yn y cynllun cyflawni drafft yn fwyaf tebygol o gael effaith gadarnhaol a sylweddol ar blant a theuluoedd yng Nghymru.** Cydnabyddir nad oes angen i Gymru ddyfeisio model newydd ar gyfer cyflawni: mae arni angen dull strategol i wneud i'n polisiau a gweithgareddau cyfredol weithio'n gydlynol ledled Cymru i gefnogi plant, eu teuluoedd a'r ymarferwyr sy'n eu cefnogi.

Ein huchelgais yw gwneud mwy i gynorthwyo plant ag anghenion ILlaCh, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar, ac adeiladu ar yr hyn y gwyddom ei fod yn gweithio fel bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Ceir pedwar amcan allweddol yn y cynllun cyflawni drafft:

**Amcan 1:** Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd – mae'n disgrifio sut y byddwn yn cyrraedd rhieni â'n negeseuon allweddol am bwysigrwydd siarad, ymgysylltu a chwarae gyda babanod a phlant bach.

**Amcan 2:** Gwellu'r broses o asesu ILlaCh mewn plant (Blynyddoedd Cynnar) – mae'n disgrifio sut y byddwn yn safoni'r broses asesu, yn adnabod materion ILlaCh yn gynnar ac yn sicrhau bod ymyriad amserol yn cael ei roi ar waith.

**Amcan 3:** Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru i fynd i'r afael ag anghenion ILlaCh – mae'n disgrifio sut y bydd y gweithlu gofal plant yn dra hyfforddedig ac wedi'u harfogi â'r sgiliau i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a theuluoedd lle ceir anghenion a adnabuwyd o ran datblygiad ILlaCh.

**Amcan 4:** Gwreiddio ILlaCh ym mholisïau Llywodraeth Cymru – mae'n disgrifio sut y byddwn yn adolygu ein polisïau a'n strategaethau i sicrhau eu bod yn amlygu pwysigrwydd ILlaCh yn y blynyddoedd cynnar a'r tu hwnt.

Bydd y cynllun cyflawni drafft yn canolbwyntio ar gamau gweithredu a/neu ymrwymadau posibl sy'n ofynnol gan yr holl bartneriaid allweddol i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion ILlaCh yn cael cymorth priodol er mwyn cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir.

Trwy gyfuno ein polisïau presennol mewn cynllun cyflawni, gallwn fwrw golwg holistaidd ar ddatblygiad iaith cynnar a sicrhau bod holl rannau'r system yn gweithio mewn cytgordd i gadw ILlaCh yn flaenllaw yn ein hymdrechion i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

- ♦ ***Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (e.e. plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag anabledd, plant sy'n byw mewn aelwydydd Cymraeg a phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a.y.b.)***

**O dan Amcan 3 – Uwchsgilio'r gweithlu gofal plant a gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol, un o'r camau gweithredu allweddol yw bod â** phhecyn hyfforddi ar-lein sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y gweithlu ILlaCh i'w helpu i fod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a rhoi cyngor ynghylch gweithio gyda phobl yr effeithiwyd ar eu bywydau gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Mae ILlaCh eisoes yn elfen graidd o'r rhaglen Dechrau'n Deg sydd wedi'i thargedu at y teuluoedd hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Cydnabyddir bod angen sgiliau penodol ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n defnyddio technegau trochi iaith. Mae hyfforddiant i ymarferwyr sy'n gweithio mewn Cylchoedd Meithrin i ddatblygu methodolegau trochi iaith wedi cael ei gyflwyno ledled Cymru yn 2019-20. Gan adeiladu ar hyn, byddwn yn sicrhau bod datblygu'r gweithlu'n elfen allweddol o unrhyw gamau pellach a gymerir i gryfhau darpariaeth trochi iaith.

Mae cefnogi datblygiad ILlaCh yn hanfodol i wireddu pedwar diben y cwricwlwm newydd. Mae disgrifiadau dysgu ar gyfer datblygiad llafaredd cynnar, gan gynnwys datblygiad systematig ymwybyddiaeth ffonolegol, wedi cael eu datblygu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd y Fframwaith Llythrennedd wedi'i fireinio'n darparu rhagor o fanylion ynghylch gwrando a siarad. Bydd canllawiau trosfwaol yn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i ddatblygu eu cwricwla a byddant yn cynnwys gwybodaeth am Hygyrchedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

- ♦ ***Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio i oleuo eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr?***

Trwy weithio gydag arbenigwyr ym maes therapi iaith a lleferydd, gwyddom y gallwn bennu ein cyfeiriad teithio cenedlaethol ar gyfer ILlaCh, gan adeiladu ar yr arfer da sydd bellach yn bodoli yn ein hawdurdodau lleol fel a ddangosir trwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Rydym wedi cynnal arolygon gydag ymarferwyr ILlaCh a rhieni i sicrhau bod ein cynllun cyflawni'n adlewyrchu eu barn. Yn arbennig, fe ganfuom o'r adborth gan rieni y byddent yn hoffi cael negeseuon allweddol am ILlaCh trwy gymysgedd o ddulliau – yn ddigidol a thrwy gyfrwng adnoddau traddodiadol. Bydd ein hymgyngoriad yn targedu ymarferwyr a'r cyhoedd trwy ein timau rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na ddylem fwrw ymlaen â chynllun cyflawni; i'r gwrthwyneb, rydym wedi cael ein lobio gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd i godi proffil ILlaCh. Ategwyd hyn gan dystiolaeth ymchwil sy'n dweud wrthym na allwn anwybyddu'r effaith anffafriol y mae ILlaCh gwael yn ei chael ar gymdeithas, a gwyddom hefyd fod y tair gwlad arall yn y DU yn gwneud safiad i hybu ILlaCh.

- ♦ ***Sut ydych chi wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc? Os nad ydych, eglurwch pam.***

Er nad ydym wedi ymgynghori'n uniongyrchol â phlant yn y blynyddoedd cynnar (plant 0-7 oed) mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (CBThIaLI) yng Nghymru i godi proffil ILlaCh yn y blynyddoedd cynnar a rhoi mesurau ar waith i ddileu'r rhwystrau sy'n atal plant iau rhag gwneud cynnydd o ran caffael iaith yn gynnar.

Mae CBThIaLI wedi dweud wrthym bod angen inni fwrw golwg o'r newydd ar y ffordd y mae cymorth gydag ILlaCh yn cael ei gynnig a'i roi ledled Cymru i sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn cyrraedd yr holl blant y gall fod angen cymorth arnynt. Mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn cynrychioli anghenion plant a'u teuluoedd.

Y bwriad yw y bydd ymgynghori eang â phawb sy'n gweithio gyda phlant yn ein galluogi i gytuno ar gynllun cyflawni manwl sy'n gosod cyfrifoldebau ar bob maes o fewn y system i weithwyr ILlaCh proffesiynol i Lywodraeth Cymru.

**Fel a nodwyd uchod, rydym wedi ymgynghori'n flaenorol ag ymarferwyr allweddol yn y sector ynghyd â rhieni mewn amrywiaeth o ffyrdd, trwy'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm newydd y mae datblygiad llafaredd cynnar ac iaith gynnar a sgiliau ar gyfer eu dyfodol wedi'u gwreiddio drwyddo, a'r gwaith ymgynghori ynghylch y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rydym hefyd**

## wedi cyfathrebu gyda'r sector wrth ddatblygu Cynllun y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar.

### ♦ *Pa dystiolaeth arall fyddai'n goleuo'r asesiad?*

Cydnabyddir trwy ymchwil a gomisiynwyd<sup>2</sup> nad oes angen i Gymru ddyfeisio model cyflawni newydd. Yn lle hynny, mae angen dull mwy strategol i wneud i'r gweithgareddau cyfredol weithio ar draws yr holl leoliadau yng Nghymru.

### **Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Fel y gwelir drwy'r cynnig i gyd, mae'r ymgynghoriad ynghylch cynllun cyflawni ar gyfer ILlaCh yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid o asiantaethau lechyd, Awdurdodau Lleol, Byd Addysg, o blith Rhieni, Sefydliadau'r Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cynllun cyflawni drafft bydd yr holl blant a'u teuluoedd yn cael budd o'r syniadau a gynigir i gefnogi datblygiad ILlaCh, gan arwain at well cyflawniadau addysgol, llesiant a sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Isod ceir tabl o'r erthyglau yn CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig uchod.

| <b>Rhif yr Erthygl</b> | <b>Disgrifiad</b>   | <b>Cysylltiadau â'r Cynnig</b>   |
|------------------------|---|--|
| <b>2</b>               | Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'u statws o ran ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu'n ei ddweud, beth bynnag fo'u cefndir teuluol. | Mae'r cynllun cyflawni drafft yn ceisio archwilio sut y gallem gymryd y gwersi a ddysgwyd o'r gwasanaethau therapi iaith a lleferydd o fewn Dechrau'n Deg (darpariaeth wedi'i thargedu) a darpariaeth generig a gwreiddio'r arfer da hwn yn fwy eang ni waeth beth fo'u cefndir. |
| <b>3</b>               | Rhaid i fudd pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a cham gweithredu sy'n effeithio ar blant.  | Mae'r cynllun cyflawni drafft hwn yn amcanu at ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff yr holl blant yng Nghymru eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau ILlaCh; y plentyn sy'n greiddiol i'r cynllun cyflawni hwn.  |

<sup>2</sup> [Astudiaeth i fapio'r ddarpariaeth addysgol gyfredol o ran cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu yng Nghymru, i ddysgwyr 0-25 oed](#)

|    |  |   |
|----|--|---|
| 5  | <p>Rhaid i lywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau rhieni a gofalwyr i ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd ar gyfer eu plentyn wrth i'r plentyn dyfu, fel ei fod yn mwynhau ei hawliau'n llawn. Rhaid i hyn gael ei wneud mewn ffordd sy'n cydnabod gallu cynyddol y plentyn i wneud ei ddewisiadau ei hun.</p> | <p>Un o'r camau gweithredu allweddol yn y cynllun cyflawni yw hyrwyddo negeseuon allweddol i rieni am bwysigrwydd siarad, ymgysylltu a chwarae gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar i ddatblygu caffael iaith.</p> <p>Rydym hefyd yn mynd i gynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd cenedlaethol a fydd yn cyfeirio at arweiniad a chymorth ar gyfer eu plentyn.</p>   |
| 6  | <p>Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth a allant i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.</p>  | <p>Cydnabyddir yn eang bod datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol bwysig. Mae hyn yn cynnwys caffael sgiliau ILlaCh a llafaredd gan blant sy'n tanategu gallu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu ac i ddatrys problemau. Mae cysylltiad cryf rhwng datblygiad gwybyddol cadarnhaol a llwyddiant plentyn yn yr ysgol a'i fynediad i'r gweithlu.</p>   |
| 18 | <p>Mae'r ddau riant yn rhannu cyfrifoldeb am fagu eu plentyn a dylent wastad ystyried beth sydd orau i'r plentyn. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni trwy greu gwasanaethau cymorth i blant a rhoi'r cymorth y mae ar rieni ei angen i fagu eu plant.</p>   | <p>Mae nifer o gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni'n canolbwyntio ar y cymorth a roddir i rieni a'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio'n agos gyda phlant o wasanaethau amrywiol.</p>  |
| 23 | <p>Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, hyd y bo'n bosibl, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth a allant i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.</p>  | <p>Un o'r camau gweithredu allweddol yn y cynllun cyflawni yw sicrhau bod y gweithlu gofal plant a gweithwyr ieuchyd proffesiynol perthnasol yng Nghymru'n dra hyfforddedig ac yn gryf iawn eu cymhelliant fel bod cymorth ar gyfer ILlaCh yn cael ei roi i blant ar yr adeg gywir a bod ymyriadau'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad y plentyn gan gynnwys llwybr</p> |



|    |   |  |
|----|---|--|
|    |   | hyfforddiant ILlaCh ar gyfer staff yn y gweithlu gofal plant, a hwnnw wedi'i alinio â disgrifyddion o'r Ddeddf ADY.  |
| 24 | Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, ac amgylchedd glân ac addysg am iechyd a llesiant fel bod plant yn gallu cadw'n iach. Rhaid i wledydd mwy cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | Fel uchod  |
| 28 | Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg.   | <p>Fel arfer safonol, bydd polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau, hyd y bo'n bosibl, eu bod yn amlygu pwysigrwydd ILlaCh yn y blynyddoedd cynnar a'r tu hwnt.</p> <p>O fewn y cam gweithredu hwn mae Llywodraeth Cymru yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu dull integredig o ddarparu addysg a gofal yn ystod plentyndod cynnar a fydd yn seiliedig ar egwyddorion allweddol datblygiad plant.</li> <li>• Datblygu deunyddiau ar gyfer ymarferwyr addysg ar ddatblygiad plant i roi cymorth i roi'r cwricwlwm newydd ar waith.</li> </ul> |
| 30 | Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, defodau a chrefydd eu teulu, ni waeth pa un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o'r bobl yn y wlad y maent yn byw ynddi ai peidio.  | Mewn perthynas â'r Gymraeg neu ieithoedd eraill yn y cartref, mae'r cynllun cyflawni'n ceisio gwella sgiliau ymarferwyr a rhoi'r cymorth y mae ar rieni ei angen i ddatblygu ILlaCh eu plentyn yn eu dewis iaith.  |